



Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch

Gweithio gyda meddygon Gweithio dros gleifion

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol

Dyletswyddau meddyg sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol

Rhaid bod modd i gleifion ymddiried eu bywydau a'u hiechyd gyda meddygon. Er mwyn cyfiawnhau'r ymddiriedaeth honno, rhaid i chi ddangos parch tuag at fywyd dynol a sicrhau bod eich arfer yn bodloni'r safonau a ddisgwyilir gennych mewn pedwar maes.

Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad

- Sicrhau eich bod yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal eich claf.
- Darparu gofal a gwaith meddyg o safon da.
 - Sicrhau eich bod yn diweddarau eich sgiliau a'ch gwybodaeth broffesiynol.
 - Cydnabod a gweithio o fewn terfynau eich cymhwysedd.

Diogelwch ac ansawdd

- Gweithredu yn ddi-oed os oes gennych reswm da dros gredu y gallech chi neu gydweithiwr fod yn rhoi cleifion mewn perygl.
- Diogelu a hyrwyddo iechyd cleifion a'r cyhoedd.

Cyfathrebu, partneriaeth a gwaith tîm

- Trin cleifion fel unigolion a pharchu eu hurddas.
 - Trin cleifion mewn ffordd gwrtais ac ystyrlon.
 - Parchu hawl cleifion i gyfrinachedd.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda chleifion.
 - Gwrando ar gleifion ac ymateb i'w pryderon a'u dewisiadau.
 - Rhoi'r wybodaeth y maent yn ei dymuno neu'r wybodaeth y mae angen iddynt ei chael i gleifion, mewn ffordd y gallant ei deall.
 - Parchu hawl cleifion i wneud penderfyniadau am eu triniaeth a'u gofal gyda chi.
 - Cynorthwyo cleifion i ofalu am eu hunain er mwyn gwella a chynnal eu hiechyd.
- Gweithio gyda chydweithwyr mewn ffyrdd sy'n diwallu buddiannau cleifion orau.

Cynnal ymddiriedaeth

- Bod yn onest ac yn agored, a gweithredu mewn ffordd ddi-dwyll.
- Ni ddylech fyth wahaniaethu yn erbyn cleifion neu gydweithwyr mewn ffordd annheg.
- Ni ddylech fyth gymryd mantais ar ffydd eich cleifion ynndoch neu ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn.

Rydych yn atebol yn bersonol am eich gwaith proffesiynol fel meddyg ac mae'n rhaid i chi fod yn barod i gyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd bob amser.

Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion, a gweithredu yn eu cylch

Cyhoeddwyd Ionawr 2012.

Bydd yn dod i rym ar 12 Mawrth 2012.

Mae modd i chi weld y fersiwn diweddaraf o'r arweiniad hwn ar ein gwefan, sef www.gmc-uk.org/guidance.

Cynnwys

	Paragraff(au)	Tudalen
Am yr arweiniad hwn	1–6	04
Sut y mae'r arweiniad hwn yn berthnasol i chi	4–6	06
Rhan 1: Mynegi pryder	7–18	07
Dyletswydd i fynegi pryderon	7–8	07
Goresgyn rhwystrau sy'n atal pobl rhag adrodd	9–10	07
Y camau i'w cymryd er mwyn mynegi pryder	11–15	08
Rhan 2: Gweithredu ynghylch pryder	19–26	12
Ymchwilio i bryderon	23–25	14
Help a chyngor	26	16
Cysylltiadau defnyddiol		17

Am yr arweiniad hwn

1 Mae'r arweiniad hwn yn nodi ein disgwyliad y bydd pob meddyg, beth bynnag fo eu rôl, yn cymryd camau priodol er mwyn mynegi pryderon ynghylch gofal, urddas a diogelwch cleifion, a gweithredu yn eu cylch.

2 Mae *Arfer meddygol da* (2013) yn nodi:

24 Rhaid i chi hyrwyddo ac annog diwylliant sy'n caniatáu i'r holl staff fynegi pryderon mewn ffordd agored a diogel.

25 Rhaid i chi weithredu yn ddi-oed os byddwch o'r farn bod diogelwch, urddas neu esmwythdra claf yn cael ei beryglu mewn ffordd ddifrifol, neu y gallai gael ei beryglu mewn ffordd ddifrifol.

a Os na fydd claf yn cael gofal sylfaenol sy'n bodloni eu hanghenion, rhaid i chi ddweud wrth rywun sydd mewn sefyllfa i weithredu ar unwaith.

b Os bydd cleifion mewn perygl oherwydd safle, offer¹ neu adnoddau, polisïau neu systemau eraill y maent yn annigonol, dylech gywiro'r mater os oes modd. Rhaid i chi fynegi'ch pryder yn unol â'n harweiniad a pholisi eich gweithle. Yn ogystal, dylech gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi'u cymryd.

- c Os bydd gennych chi unrhyw bryderon nad yw cydweithiwr yn addas i wneud gwaith meddygol efallai, ac y gallent fod yn rhoi cleifion mewn perygl, rhaid i chi ofyn i gydweithiwr, eich corff amddiffyn neu ni am gyngor. Os byddwch yn pryderu o hyd, rhaid i chi adrodd hyn, yn unol â'n harweiniad a pholisi eich gweithle, gan gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi'u cymryd.
- 3 Mae'r arweiniad hwn yn esbonio sut i weithredu'r egwyddorion yn *Arfer meddygol da*. Mae'n cynnwys dwy ran.

 - Mae **Rhan 1: Mynegi pryder** yn cynnig cyngor ynghylch mynegi pryder y gallai cleifion fod mewn perygl o ddioddef niwed difrifol, a'r help a'r cymorth sydd ar gael i chi.
 - Mae **Rhan 2: Gweithredu ynghylch pryder** yn esbonio'ch cyfrifoldebau chi pan fydd cydweithwyr neu unigolion eraill yn mynegi pryderon i chi, a sut y dylid delio gyda'r pryderon hynny.²

Sut y mae'r arweiniad hwn yn berthnasol i chi

- 4 Yn yr arweiniad hwn, defnyddir y termau 'rhaid i chi' a 'dylech' yn y ffyrdd canlynol.
 - Defnyddir 'Rhaid i chi' ar gyfer egwyddor neu ddyletswydd o'r pwys mwyaf.
 - Defnyddir 'Dylech' pan fyddwn yn rhoi esboniad o'r ffordd y byddwch yn cyflawni'r ddyletswydd o'r pwys mwyaf.
 - Yn ogystal, defnyddir 'Dylech' pan na fydd y ddyletswydd neu'r egwyddor yn berthnasol ym mhob sefyllfa neu amgylchiad, neu pan fo ffactorau y tu allan i'ch rheolaeth yn effeithio ar sut neu a ydych yn gallu cydymffurfio â'r arweiniad.
- 5 Er bod yr arweiniad hwn yn cynnig awgrymiadau am yr hyn i'w wneud a'r sawl y dylid troi atynt, nid oes modd iddo gynnwys pob sefyllfa. O ganlyniad, bydd angen i chi ddefnyddio'ch barn er mwyn arddel yr egwyddorion yn eich sefyllfa benodol chi. Os nad ydych yn siŵr sut y mae'r arweiniad hwn yn berthnasol i'ch sefyllfa chi, dylech gael cyngor gan yr unigolion a'r cyrff a awgrymir yn yr arweiniad hwn.
- 6 Rhaid i chi fod yn barod i egluro a chyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd. Dim ond methiant difrifol neu barhaus i ddilyn ein canllawiau sy'n peri risg i ddiogelwch cleifion neu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn meddygon fydd yn peryglu'ch cofrestriad.

Rhan 1: Mynegi pryder

Dyletswydd i fynegi pryderon

- 7 Mae gan bob meddyg ddyletswydd i fynegi pryderon pan fyddant o'r farn bod diogelwch neu ofal claf yn cael ei danseilio gan waith cydweithwyr neu gan y systemau, y polisiau a'r gweithdrefnau yn y sefydliad y maent yn gweithio ynddo. Rhaid iddynt annog a chefnogi diwylliant lle y mae modd i staff fynegi pryderon mewn ffordd agored a diogel hefyd.
- 8 Ni ddylech ymrwymo i gontractau neu gytundebau gyda'ch corff cyflogi neu gontractio sy'n ceisio'ch atal rhag mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion, neu gyfyngu'ch gallu i wneud hynny. Bydd contractau neu gytundebau yn ddi-rym os mai eu bwriad yw atal cyflogai rhag gwneud datgeliad wedi'i ddiogelu.³

Goresgyn rhwystrau sy'n atal pobl rhag adrodd

- 9 Efallai eich bod yn amharod i adrodd pryder am nifer o resymau. Er enghraifft, oherwydd eich bod yn ofni na fydd unrhyw beth yn cael ei wneud, neu oherwydd y gallai mynegi'ch pryder achosi problemau i gydweithwyr; cael effaith negyddol ar berthnasoedd gwaith; cael effaith negyddol ar eich gyrfa; neu arwain at gŵyn yn cael ei gwneud amdanoch chi.

- 10** Os ydych yn oedi cyn adrodd pryder o ganlyniad i'r rhesymau hyn, dylech gofio'r canlynol.
- a** Mae gennych ddyletswydd i roi'r pwys mwyaf ar fuddiannau cleifion a gweithredu i'w diogelu, ac mae'r ddyletswydd hon yn drech na theyrngarwch personol a phroffesiynol.
 - b** Mae'r gyfraith yn cynnig diogelwch cyfreithiol rhag erledigaeth neu ddiswyddo ar gyfer unigolion sy'n datgelu gwybodaeth er mwyn mynegi pryderon go iawn ac er mwyn amlygu camymddygiad yn y gweithle.⁴
 - c** Nid oes yn rhaid i chi aros am brawf – bydd modd i chi gyfiawnhau'r cam o fynegi pryder os byddwch yn gwneud hynny mewn ffordd onest, ar sail cred resymol a thrwy ddilyn y camau priodol, hyd yn oes os byddwch wedi gwneud camgymeriad.

Y camau i'w cymryd er mwyn mynegi pryder

- 11** Rhaid i chi ddilyn y weithdrefn yn y man lle'r ydych yn gweithio er mwyn adrodd digwyddiadau niweidiol a digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd. Mae hyn oherwydd bod nodi digwyddiadau niweidiol neu ddigwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn gynnar, yn gallu golygu bod modd delio gyda materion, bod modd cywiro problemau a bod modd dysgu gwersi.

- 12** Os oes gennych reswm dros gredu bod cleifion mewn perygl o farw neu ddioddef niwed difrifol am unrhyw reswm, neu y gallent fod mewn perygl o farw neu ddioddef niwed difrifol, dylech adrodd eich pryder i'r unigolyn neu'r sefydliad priodol ar unwaith. Ni ddylech oedi cyn gwneud hyn oherwydd nad ydych chi mewn sefyllfa i gywiro'r mater.
- 13** Pryd bynnag y bo modd, dylech fynegi'ch pryder i'ch rheolwr neu swyddog priodol yn y sefydliad y mae gennych gontract gydag ef neu sy'n eich cyflogi chi yn y lle cyntaf – fel yr ymgynghorydd sy'n gyfrifol am y tîm, y cyfarwyddwr clinigol neu feddygol neu bartner yn y practis. Os yw'ch pryder yn ymwneud â phartner, efallai y byddai'n briodol ei godi y tu allan i'r practis – er enghraifft, gyda'r cyfarwyddwr meddygol neu'r swyddog arweiniol dros lywodraethu clinigol ar gyfer eich sefydliad. Os ydych yn feddyg dan hyfforddiant, efallai y bydd yn briodol eich bod yn mynegi'ch pryderon i unigolyn penodol yn y ddeoniaeth – er enghraifft, y deon ôl-raddedig neu'r cyfarwyddwr addysg ymarfer meddygol ôl-raddedig.
- 14** Rhaid i chi fynegi'r rheswm dros eich pryder mewn ffordd eglur, gonest a gwrthrychol. Dylech gydnabod unrhyw gŵyn bersonol a allai ddeillio o'r sefyllfa, ond dylech ganolbwyntio ar ddiogelwch cleifion.
- 15** Yn ogystal, dylech gadw cofnod o'ch pryder, ac unrhyw gamau yr ydych wedi'u cymryd er mwyn delio ag ef.

Mynegi pryder i reolydd

- 16** Dylech gysylltu gyda chorff rheoleiddio megis y Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC)⁵ neu gorff arall y mae ganddo'r awdurdod i ymchwilio i'r mater (megis y rhai a restrir ar ddiwedd yr arweiniad hwn) yn yr amgylchiadau canlynol.
- a** Os nad oes modd i chi godi'r mater gyda'r unigolyn neu'r corff cyfrifol yn lleol oherwydd eich bod o'r farn eu bod yn rhan o'r broblem.
 - b** Os ydych wedi mynegi'ch pryder trwy gyfrwng y sianelau lleol, ond nad ydych yn fodlon bod yr unigolyn neu'r corff cyfrifol wedi cymryd camau digonol.
 - c** Os oes risg difrifol uniongyrchol i gleifion, ac mae gan reolydd neu gorff allanol arall gyfrifoldeb i weithredu neu i ymyrryd.

Mynegi pryder yn gyhoeddus

- 17** Gallwch ystyried mynegi'ch pryderon yn gyhoeddus:
- a** os ydych wedi gwneud popeth y gallwch ei wneud er mwyn delio gydag unrhyw bryder trwy ei godi o fewn y sefydliad yr ydych yn gweithio ynddo neu y mae gennych gontract gydag ef, neu gyda'r corff allanol priodol, ac
 - b** mae gennych reswm da dros gredu bod cleifion mewn perygl o ddioddef niwed o hyd, ac

- c na fyddwch yn torri amodau cyfrinachedd.

Ond, dylech gael cyngor (gweler tudalen 11) cyn gwneud penderfyniad fel hyn.

Help a chyngor

18 Os nad ydych yn siŵr a ddylech fynegi'ch pryder, neu sut i fynd ati i fynegi'ch pryder, dylech gael cyngor gan:

- a aelod uwch o staff neu gydweithiwr diduedd arall
- b Llinell Gymorth Gyfrinachol CMC⁶
- c eich corff amddiffyn meddygol, coleg brenhinol neu gymdeithas broffesiynol fel Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA)
- d y corff rheoleiddio priodol a restrir ar ddiwedd yr arweiniad hwn os yw'ch pryder yn ymwneud gyda chydweithiwr mewn unrhyw broffesiwn arall, neu reolyddion systemau perthnasol eraill os yw'ch pryder yn ymwneud gyda systemau neu sefydliadau yn hytrach nag unigolion
- e Public Concern at Work – elusen sy'n darparu cyngor cyfreithiol cyfrinachol yn rhad ac am ddim i bobl y maent yn pryderu am gamweithredu yn y gwaith, ac nad ydynt yn siŵr a ddylent fynegi eu pryder, neu sut y dylent ei fynegi.

Rhan 2: Gweithredu ynghylch pryder

Pob meddyg

- 19 Mae gan bob meddyg gyfrifoldeb dros annog a chefnogi diwylliant lle y mae modd i staff fynegi pryderon mewn ffordd agored a diogel.
- 20 Mae modd i bryderon am ddiogelwch cleifion ddod o nifer o ffynonellau, megis cwynion gan gleifion, pryderon gan gydweithwyr, adroddiadau am ddigwyddiadau difrifol ac archwiliadau clinigol. Gallai pryderon fod yn ymwneud gyda safleoedd annigonol, offer, adnoddau eraill, polisiau neu systemau, neu ymddygiad, iechyd neu berfformiad staff neu dimau amlddisgyblaethol. Os byddwch yn cael y wybodaeth hon, mae gennych gyfrifoldeb i weithredu yn ei chylch mewn ffordd brydlon a phroffesiynol. Mae modd i chi wneud hyn trwy gywiro'r mater (os oes modd), ymchwilio i'r pryder a delio gydag ef yn lleol, neu gyfeirio digwyddiadau neu gwynion difrifol neu y maent wedi codi fwy nag unwaith, at reolwyr uwch neu'r awdurdod rheoleiddio perthnasol.

Meddygon y mae ganddynt gyfrifoldebau ychwanegol

- 21 Os ydych yn gyfrifol am lywodraethu clinigol neu os oes gennych gyfrifoldebau rheoli ehangach o fewn eich sefydliad, mae gennych ddyletswydd i helpu pobl i adrodd eu pryderon ac i alluogi pobl i weithredu ynghylch pryderon a fynegir iddynt.

22 Os oes gennych rôl neu gyfrifoldeb rheoli, rhaid i chi sicrhau:

- a** bod systemau a pholisïau yn bodoli er mwyn galluogi pobl i fynegi pryderon, ac er mwyn sicrhau bod modd ymchwilio i bryderon a chwynion yn llawn ac yn brydlon⁷
- b** nad ydych yn ceisio atal cyflogeion neu gyn gyflogeion rhag mynegi pryderon ynghylch diogelwch cleifion – er enghraifft, ni ddylech gynnig neu gymeradwyo contractau neu gytundebau sy'n ceisio cyfyngu ar neu gael gwared ar ryddid y contractwr i ddatgelu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w pryderon
- c** bod staff clinigol yn deall eu dyletswydd i fod yn agored ac yn onest ynghylch digwyddiadau neu gwynion gyda chleifion a rheolwyr
- d** bod yr holl staff eraill yn cael eu hannog i fynegi pryderon sydd ganddynt efallai am ddiogelwch cleifion, gan gynnwys unrhyw risgiau y gallent fod yn cael eu hachosi gan gydweithwyr neu dimau
- e** bod staff sy'n mynegi pryder yn cael eu diogelu rhag gweithredu neu feirniadaeth annheg, gan gynnwys unrhyw anfantais neu ddiswyddo.

Ymchwilio i bryderon

- 23** Os ydych yn gyfrifol am ymchwilio i ddiwyddiadau neu gwynion, mae gennych gyfrifoldeb tuag at y sawl sy'n mynegi pryder. Rhaid i chi:
- a** eu diogelu rhag gweithredu neu feirniadaeth annheg, gan gynnwys unrhyw anfantais neu ddiswyddo
 - b** dweud wrthynt pa gamau y maent wedi cael eu cymryd neu y byddant yn cael eu cymryd er mwyn atal y broblem rhag codi eto (os yw hyn yn berthnasol)
 - c** amlinellu'r broses os nad ydynt yn fodlon gyda'r ymateb o hyd – er enghraifft, os ystyrir cwynion o fewn Rheoliadau Cwynion y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Lloegr) 2009, y broses er mwyn cyfeirio'r pryder at Ombwdsman y Gwasanaeth Iechyd.

- 24** Os ydych yn gyfrifol am ymchwilio i ddigwyddiadau neu gwynion, dylech sicrhau hefyd:
- a** bod unrhyw ymchwiliad neu gamau a fydd yn cael eu cymryd o ganlyniad yn cael eu cynnal mewn ffordd sy'n cyd-fynd gyda'r gyfraith, gan gynnwys, er enghraifft, *Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998*⁸
 - b** eich bod yn meddu ar wybodaeth weithredol o'r gyfraith a'r gweithdrefnau perthnasol y cynhelir ymchwiliadau ac achosion cysylltiedig oddi tanynt
 - c** bod y rhai sy'n cael eu hymchwilio yn cael eu trin mewn ffordd deg
 - d** bod adroddiadau digwyddiadau niweidiol a digwyddiadau difrifol yn cael eu paratoi o fewn y sefydliad ac ar gyfer cyrff allanol perthnasol eraill
 - e** bod argymhellion sy'n deillio o ymchwiliadau yn cael eu gweithredu neu'n cael eu cyfeirio at reolwyr uwch
 - f** bod cleifion y maent yn gwneud cwyn yn cael ymateb prydlon, agored, adeiladol a gonest.

25 Yn ogystal, rhaid i chi sicrhau bod cleifion sy'n dioddef niwed yn cael esboniad, a phan fo hynny'n briodol, eu bod yn cael ymddiheuriad.⁹

Help a chyngor

26 Os nad ydych yn siŵr ynghylch sut i ymateb i bryder, dylech gael cyngor gan:

- a** aelod o staff uwch, tîm rheoli eich sefydliad neu gydweithiwr diduedd arall
- b** eich swyddog cyfrifol neu, os ydych yn swyddog cyfrifol neu'n gyfarwyddwr meddygol, cynghorydd cyswllt cyflogwyr CMC¹⁰
- c** eich corff amddiffyn meddygol, coleg brenhinol neu gymdeithas broffesiynol megis BMA
- d** yr awdurdodau rheoleiddio perthnasol (megis y Comisiwn Ansawdd Gofal, CMC, neu reolyddion proffesiynol eraill)
- e** Protect.

Cysylltiadau defnyddiol

Cyngor a help

Public Concern at Work

Gwefan: www.pcaw.co.uk

Ffôn: 020 7404 6609

Cymdeithas Feddygol Prydain

Gwefan: www.bma.org.uk

Ffôn: 020 7387 4499

Undeb Amddiffyn Meddygol a Deintyddol yr Alban

Gwefan: www.mddus.com

Ffôn: 0845 270 2034

Undeb Amddiffyn Meddygol

Gwefan: www.the-mdu.com

Ffôn: 020 7202 1500

Cymdeithas Gwarchod Meddygol

Gwefan: www.medicalprotection.org

Ffôn: 0113 243 6436

Llinell Gymorth Chwythu'r Chwiban GIG

Gwefan: www.wbhelpline.org.uk

Ffôn: 08000 724 725

Cyrff rheoleiddio ac ymchwilio

Cyrff rheoleiddio proffesiynol

Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

Gwefan: www.gcc-uk.org

Ffôn: 020 7713 5155

Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Gwefan: www.gdc-uk.org

Ffôn: 020 7167 6000

Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gwefan: www.gmc-uk.org

Ffôn: 0161 923 6602

Llinell Gymorth Gyfrinachol:

0161 923 6399

Y Cyngor Optegol Cyffredinol

Gwefan: www.optical.org

Ffôn: 020 7580 3898

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Gwefan: www.osteopathy.org.uk

Ffôn: 020 7357 6655

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

Gwefan:

www.pharmacyregulation.org

Ffôn: 020 3713 8000

Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon

Gwefan: www.psni.org.uk
Ffôn: 028 9032 6927

Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal

Gwefan: www.hpc-uk.org
Ffôn: 0845 300 6184

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Gwefan: www.nmc-uk.org
Ffôn: 020 7637 7181

Cyrff rheoleiddio ac ymchwilio eraill

Comisiwn Ansawdd Gofal

Gwefan: www.cqc.org.uk
Ffôn: 03000 616161
Gweler hefyd *Raising a concern with CQC: A quick guide for health and care staff about whistleblowing* (2011)

Monitor

Gwefan: www.gov.uk/monitor
Ffôn: 020 3747 0000

GIG Lloegr (Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion)

Gwefan: www.england.nhs.uk
Ffôn: 0300 311 22 33

Awdurdod Safonau Proffesiynol

Gwefan: www.professionalstandards.org.uk
Ffôn: 020 7389 8030

Gogledd Iwerddon

Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd yng Ngogledd Iwerddon

Gwefan: www.rqia.org.uk
Ffôn: 028 9051 7500

Yr Alban

Yr Arolygiaeth Gofal

Gwefan: www.scswis.com
Ffôn: 0345 600 9527

Healthcare Improvement Scotland

Gwefan: www.healthcareimprovementscotland.org
Ffôn: 0131 623 4300

Cymru

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Gwefan: www.hiw.org.uk

Ffôn: 0300 062 8163

Ôl-nodion

- 1 Dilynwch yr arweiniad ym mharagraff 23c (tudalen Arfer Meddygol Da) os bydd y risg yndeillio o ddiogwyddiad niweidiol sy'n ymwneud gyda dyfais feddygol.
- 2 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2012) *Arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer pob meddyg*.
- 3 *Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998* (www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/23 yn diogelu unigolion y maent yn gwneud datgeliadau sy'n 'tueddu i ddangos' bod iechyd neu ddiogelwch unigolyn mewn perygl neu y gallai iechyd neu ddiogelwch unigolyn fod mewn perygl. 'Datgeliadau gwarchoddedig' yw'r rhain.
- 4 Am wybodaeth bellach, trowch at *Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998* (www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/23), Cyfansoddiad GIG (www.nhs.uk/choiceintheNHS/Rightsandpledges/NHSConstitution/Documents/nhs-constitutioninteractive-version-march-2010.pdf) neu PublicConcern at Work (www.pcaw.org.uk).
- 5 Am ragor o wybodaeth ynghylch sut yr ydym yn ymateb i bryderon, trowch at www.gmc-uk.org/concerns/index.asp.
- 6 Diweddarwyd ym mis Mehefin 2013 er mwyn cyfeirio at linell gymorth gyfrinachol CMC. Mae modd cael gwybodaeth bellach trwy droi at www.gmc-uk.org/concerns/making_a_complaint/14027.asp. Mae modd i chi gysylltu â'r Linell Gymorth trwy ffonio 0161 923 6399.
- 7 Am arweiniad ynghylch sefydlu systemau a pholisïau yn Lloegr, gweler Protect. <https://protect-advice.org.uk/>

Yn yr Alban, gweler *NHS Scotland, Implementing & Reviewing Whistleblowing Arrangements in NHSScotland PIN Policy* (Mai 2011) www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/364407/0123806.pdf.
- 8 Am wybodaeth ynghylch *Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998*, trowch at www.pcaw.co.uk/law/pida.htm a www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/23.
- 9 Am ragor o wybodaeth, trowch at *Arfer meddygol da*, paragraff 55, y mae ar gael trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance.
- 10 Diweddarwyd ym mis Mehefin 2013 er mwyn adlewyrchu'r llwybrau mwyaf priodol er mwyn ceisio cyngor ar ôl cyflwyno'r broses aiddilysu.

E-bost: gmc@gmc-uk.org

Gwefan: www.gmc-uk.org

Ffôn: **0161 923 6602**

Cyngor Meddygol Cyffredinol, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW

Ffôn testun: **deialwch y rhifau cyntaf 18001** yna **0161 923 6602** er mwyn defnyddio'r gwasanaeth Trosglwyddo Testun

Ymunwch â'r sgwrs

 [@gmcuk](https://twitter.com/gmcuk)

 facebook.com/gmcuk

 linkd.in/gmcuk

 youtube.com/gmcuktv

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn iaith neu ffurf arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602**, neu anfonwch e-bost atom, at publications@gmc-uk.org.

Cyhoeddwyd Ionawr 2012, diweddarar Tachwedd 2020

©2021 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei bod yn cael ei hatgynhyrchu'n gywir, ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint CMC dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

ISBN: 978-0-901458-65-0

Mae CMC yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278)
a'r Alban (SC037750)

Cod: GMC/RAC-W/1121

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol